CIWB

Tasg 1

# Matsio'r lluniau

Darllenwch y gerdd eto ac yna matsiwch y lluniau ar y sgrin gyda'r penillion.

**Lluniau lliwgar**

| | |
|---|---|
| Aderyn lliwgar llachar yn<br>eistedd heb siw na miw<br>yn aros am fwyd. | Llun |
| Carped lliwgar o flodau<br>yn enfys o liwiau<br>bendigedig. | Llun |
| Dwy ferch swil<br>mewn dillad fflamgoch, hardd<br>ar gefndir gwyn ysblennydd. | Llun |
| Golau gwyrdd dramatig<br>yn saethu'n sydyn ar draws<br>awyr ddu y nos | Llun |
| Môr gwyrdd llonydd,<br>cychod cysglyd,<br>harbwr hyfryd. | Llun |
| Mae'r byd yn llawn<br>Pobl a phethau<br>LLIWGAR! | Llun |

Non ap Emlyn

| Geirfa | | | |
|---|---|---|---|
| cerdd | poem | cefndir | background |
| pennill, penillion | verse, verses | ysblennydd | splendid |
| lliwgar | colourful | saethu | to shoot |
| llachar | bright | ar draws | across |
| heb siw na miw | without a sound | awyr | sky |
| aros | to wait | llonydd | still |
| enfys | rainbow | cychod | boats |
| swil | shy | cysglyd | sleepy |
| fflamgoch | flaming red | pethau | things |

CIWB

Beth ydych chi'n feddwl o'r gerdd? Trafodwch hyn mewn grŵp.

Dyma ychydig o help i chi.

| |
|---|
| Mae'r gerdd yn …<br>Dw i'n meddwl bod y gerdd yn … achos …<br>Yn fy marn i, mae'r gerdd yn …<br>Heb os nac oni bai, mae'r gerdd yn … achos … |